# Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio

## Egwyddorion a dulliau argymhellion Ofcom

FERSIWN HEB FOD YN GYFRINACHOL

MAE’R DARNAU CYFRINACHOL SYDD WEDI’U TYNNU YN CAEL EU DANGOS GYDA [✂]

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 15 Mai 2025

I gael rhagor o wybodaeth am y ddogfen hon, ewch i ofcom.org.uk.

# Cynnwys

## Adran


1. Trosolwg ..... 3
2. Cefndir ..... 5
3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom ..... 7


## Atodiad


A1. Datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau ..... 17

A2. Y Fframwaith Cyfreithiol ..... 21

A3. Asesiadau effaith ..... 26

# 1. Trosolwg

1.1 Mae Deddf Cyfryngau 2024 (y 'Ddeddf Cyfryngau') wedi cyflwyno set o reolau sy'n ceisio sicrhau bod ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio sy'n cael eu darlledu ar gael drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais. Mae'n diffinio mai gwasanaethau dethol radio ('RSS') yw'r gwasanaethau hyn, ac mae'n mynnu bod RSS dynodedig ("DRSS") yn darparu ffrwd ar-lein ddibynadwy o wasanaeth radio darlledu yn y DU i ymateb i orchymyn drwy lais defnyddiwr, ymysg gofynion eraill.

1.2 Mae gan Ofcom nifer o rolau mewn perthynas â'r fframwaith rheoleiddio newydd hwn.[1] Ein rôl gyntaf yw rhoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n argymell pa RSS y dylid eu dynodi. Er mwyn darparu'r adroddiad hwnnw, mae'r Ddeddf Cyfryngau yn mynnu ein bod yn datblygu set o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu defnyddio i lunio'r argymhellion yn yr adroddiad ac yn cyhoeddi'r rhain fel datganiad ar ein gwefan.

1.3 Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn egluro ein dull gweithredu arfaethedig ochr yn ochr â Datganiad drafft o Egwyddorion a Dulliau ('Datganiad'). Cawsom saith ymateb i'r ymgynghoriad, ac fe wnaethom eu hystyried yn ofalus cyn llunio fersiwn terfynol y Datganiad. Yn y ddogfen hon, rydym yn egluro'r rhesymeg dros ein penderfyniadau. Mae'r datganiad terfynol i'w weld yn Atodiad 1 i'r ddogfen hon.

1.4 Roedd nifer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn rhoi mewnbwn ynghylch sut dylem fynd ati i gyflwyno ein hadroddiad cyntaf i'r Ysgrifennydd Gwladol. Rydym yn ddiolchgar i randdeiliaid am ymgysylltu ynglŷn â'r pwyntiau hyn, a byddwn yn ystyried eu sylwadau wrth lunio'r adroddiad hwnnw, y bwriadwn ymgynghori arno yn nes ymlaen eleni.

### Ein penderfyniadau – yn gryno

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd gan mwyaf o blaid ein datganiad arfaethedig, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud unrhyw newidiadau ac i fwrw ymlaen â'r Datganiad fel y mae yn yr ymgynghoriad, sy'n nodi'r egwyddorion a'r dulliau canlynol:

- **Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth**: Wrth fesur nifer y defnyddwyr yn y DU, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio pob RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Os ydym o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy, gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd y defnyddwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio dull sy'n golygu cyfuno mwy nag un metrig neu brocsi. Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS er mwyn eu trin yn deg.

- **Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio**: yn gyffredinol byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Mae'n bosibl y byddwn yn ystyried ystod eang o wybodaeth (fel lle mae'r gwrando'n digwydd (yn y cartref, y car ac ati), pa mor aml ac am ba hyd mae defnyddwyr yn gwrando ar radio rhyngrwyd).

[1] Nodir y rhain yn yr Atodiad Fframwaith Cyfreithiol

- **A yw lefel y defnydd o’r gwasanaeth yn sylweddol**: Wrth benderfynu ar y trothwy sy’n sylweddol yn ein barn ni, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS. Byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy’n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy’n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. Felly, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion o’r blaen, byddwn yn ystyried a yw’r trothwy a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol. Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn cadw mewn cof y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr RSS.
- **Unrhyw faterion eraill mae Ofcom yn credu eu bod yn debygol o effeithio ar yr uchod**: Byddwn yn ystyried a fyddai’n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy’n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.

Gofynnodd rhai ymatebwyr am eglurhad ynghylch rhai agweddau ar ein dulliau a’n hegwyddorion arfaethedig a sut y gallent gael eu cymhwyso yn ein hadroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol. Lle bo hynny’n briodol, rydym wedi ymateb yn y ddogfen hon a byddwn yn dychwelyd at bwyntiau eraill a godwyd wrth i ni baratoi ein hadroddiad cyntaf.

Crynodeb byr ar lefel uchel yn unig yw’r adran drosolwg yn y ddogfen hon. Mae ein penderfyniadau a’n rhesymeg wedi’u nodi yn y ddogfen lawn.

# 2. Cefndir

2.1 Mae radio yn boblogaidd iawn yn y DU, gyda bron i 51 miliwn o bobl yn gwrando am 20.5 awr yr wythnos ar gyfartaledd.[2] Yn ogystal â darparu adloniant a chefndir i fywydau pobl, mae gan radio ran bwysig i'w chwarae wrth ddarparu newyddion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a helpu cymunedau i gysylltu. Mae hefyd yn darparu sianel gyfathrebu er mwyn rhannu gwybodaeth leol, fel digwyddiadau neu gau ysgolion. Mae'n helpu i gynnwys pobl nad ydynt yn defnyddio sianeli cyfathrebu digidol eraill fel y cyfryngau cymdeithasol.

2.2 Ond mae'r ffordd mae pobl yn cael gafael ar radio yn newid. Mae mwy a mwy o'r gwrando hwn yn digwydd dros y rhyngrwyd, mae rhywfaint o hynny'n cael ei wneud drwy ddyfeisiau sy'n cael eu hysgogi gan lais fel seinyddion clyfar, ffonau clyfar, neu systemau adloniant yn y car.[3] Gwrando ar wasanaethau radio sy'n cael eu ffrydio ar-lein yw chwarter a mwy yr holl wrando byw ar y radio, mae'r gyfran hon wedi mwy na dyblu dros y pum mlynedd diwethaf.[4] Yn yr asesiad effaith ar gyfer y rhan hon o'r Ddeddf Cyfryngau, mae'r llywodraeth yn nodi'r rhesymeg dros newid y cwmpas rheoleiddio: "O ystyried y risg o newid y cydbwysedd pŵer rhwng llwyfannau a gorsafoedd, mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn cymryd camau i sicrhau bod gallu gwrandawyr i gael gafael ar radio ar yr holl ddyfeisiau hyn yn cael ei ddiogelu dros y blynyddoedd i ddod."[5]

2.3 I gydnabod y newidiadau yn y dirwedd hon, mae'r Ddeddf Cyfryngau, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2024, yn golygu bod yn rhaid rheoleiddio'r gwasanaethau ar-lein hynny sy'n cael eu hysgogi gan lais, sy'n gallu ffrydio gwasanaethau radio'r rhyngrwyd ('gwasanaethau dethol radio' neu 'RSS') ac sydd wedi cael eu dynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol.[6] Mae'n mynnu, ymysg pethau eraill, fod RSS dynodedig ('DRSS') yn darparu ffrwd ar-lein ddibynadwy o wasanaeth radio darlledu yn y DU i ymateb i orchymyn llais defnyddiwr.

2.4 Yn yr adran hon rydym yn amlinellu'n gryno beth yw'r diffiniad o RSS, ein rôl mewn perthynas â dynodi RSS, a'r camau gweithredu dilynol. Mae ein dyletswyddau rheoleiddio perthnasol yn cael eu crynhoi yn Atodiad 2, sy'n cynnwys disgrifiad o'r fframwaith cyfreithiol i ddynodi RSS a'r dyletswyddau rydym wedi eu hystyried wrth ddatblygu ein hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig.

## Is-set o gynorthwywyr llais yw gwasanaethau dethol radio, sy'n darparu gwasanaeth radio i ymateb i orchymyn llais

2.5 Mae Adran 362BA o'r Ddeddf Cyfryngau yn diffinio bod RSS yn *"wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd sy'n galluogi, neu ymysg pethau eraill yn galluogi, defnyddiwr y gwasanaeth— (a) i ddewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a (b) i wneud i wasanaeth radio rhyngrwyd a ddewisir chwarae, drwy roi gorchmynion llafar sy'n cael eu recordio gan offer sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd."*.

2.6 Yn gryno, mae RSS yn fath o gynorthwyydd llais sy'n galluogi cynulleidfaoedd i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn dilyn gorchymyn llais. Mae modd cael gafael ar

[2] RAJAR Ch3 2024
[3] Ibid
[4] Ibid
[5] Asesiad effaith rheoleiddio gwasanaethau radio ar draws llwyfannau cynorthwywyr llais, tud. 1
[6] Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau/ Rhan 3B o'r Ddeddf

wasanaethau cynorthwywyr llais drwy ddyfeisiau fel seinyddion clyfar a ffonau clyfar; ond mae'n bwysig bod yn glir nad RSS yw'r dyfeisiau hyn ynddynt eu hunain. Yr hyn sy'n gwahaniaethu RSS oddi wrth gynorthwywyr llais eraill yw gallu defnyddiwr i ofyn am wasanaeth radio rhyngrwyd drwy orchymyn llafar ac iddo gael ei chwarae o ganlyniad.

## Rôl ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau wrth ddynodi RSS

2.7 O dan y Ddeddf, penderfyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol yw dynodi RSS; dim ond RSS mae'n credu sydd â lefel "sylweddol" o ddefnydd ar gyfer gwrando ar radio rhyngrwyd y caiff ei ddynodi.[7] I lywio ei benderfyniad, rhaid cael adroddiad gan Ofcom sy'n cynnwys ein hargymhellion ynghylch pa wasanaethau i'w dynodi ac yna ymgynghori â rhanddeiliaid.[8] Cawn hefyd baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol unrhyw bryd arall y credwn ei fod yn briodol.

2.8 Yn ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol mae'n rhaid i ni gynnwys y canlynol yn ein hasesiad o bob RSS dan sylw:

a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
b) y ffordd mae'r gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddefnyddio;
c) a yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol; ac
d) unrhyw faterion eraill rydym yn credu eu bod yn debygol o effeithio ar ffactorau a) i c).[9]

2.9 Cyn i ni lunio'r adroddiad hwn, mae'r Ddeddf yn mynnu ein bod yn gyntaf yn datblygu set o egwyddorion a dulliau y byddwn yn eu dilyn wrth baratoi ein hadroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol.[10] Ym mis Chwefror 2025, fe wnaethom ymgynghori ar ein cynigion ar gyfer ein Datganiad o Egwyddorion a Dulliau, ac fe wnaethom gynnwys y datganiad arfaethedig fel Atodiad i'r ymgynghoriad.

2.10 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried ein hadroddiad, ac ymgynghori ynghylch pa wasanaethau y dylid eu dynodi yn ei farn ef. Ar ôl i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud ei benderfyniad, byddwn yn parhau i fod â rôl o ran darparu adroddiadau ar ddynodiadau pellach neu ddirymiadau posibl, cadw rhestr o DRSS ar ein gwefan,[11] ac o ran llunio a chadw golwg ar wybodaeth sy'n berthnasol i ddynodiad a'r posibilrwydd o ddirymu'r dynodiad.[12]

[7] Adran 362BB o'r Ddeddf
[8] Adran 362BC o'r Ddeddf
[9] Adran 362BC (4) o'r Ddeddf
[10] Adran 362BC (5) o'r Ddeddf
[11] Adran 362BE o'r Ddeddf
[12] Adran 362BZ1 o'r Ddeddf

# 3. Ymatebion i'r ymgynghoriad a phenderfyniadau Ofcom

3.1 Yn yr adran hon rydym yn crynhoi'r cynigion a wnaethom yn yr ymgynghoriad a'r ymatebion a gawsom, ac rydym yn ystyried pob mater perthnasol a godwyd gan ymatebwyr yn eu tro i egluro ein hystyriaeth o'r ymateb cyn nodi ein penderfyniadau.

3.2 Wrth wneud y penderfyniadau hyn, rydym wedi ystyried eu heffaith a'n dyletswyddau statudol perthnasol.[13] Rydym yn egluro yn Atodiad 3 sut mae ein penderfyniadau'n cyd-fynd â'r dyletswyddau hynny ac yn nodi ein hasesiadau effaith terfynol, gan gynnwys ar gydraddoldeb a'r Gymraeg.

## Ein hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig

### Ymateb i'n hymgynghoriad

3.3 Wrth baratoi adroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol gydag argymhellion ynghylch dynodi'r RSS, rhaid i ni ystyried amrywiaeth o ffactorau a nodir yn y Ddeddf, fel y nodir isod. Yn yr ymgynghoriad, fe wnaethom gynnig yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r ffactorau hynny, gan asesu effaith y cynigion hynny a gofyn a oedd rhanddeiliaid yn cytuno â'n cynigion ar gyfer pob ffactor.

3.4 Cawsom saith ymateb i'n hymgynghoriad. Roedd✂, ✂, y BBC, Sky, News UK, Radiocentre a Penistone FM o blaid ar y cyfan o'n cynigion gan mwyaf.[14] Cafwyd sylwadau ychwanegol gan rai ynghylch sut dylem gymhwyso ein hegwyddorion a'n dulliau wrth wneud ein hargymhellion. Byddwn yn ystyried y sylwadau hyn pan fyddwn yn paratoi ein hadroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol gydag argymhellion ynghylch dynodiadau RSS.

### Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth a sut maen nhw'n ei ddefnyddio

#### Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

3.5 Wrth wneud ein hargymhellion, fe ddywedom yn ein hymgynghoriad ei bod yn rhaid i ni asesu, mewn perthynas â RSS, nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.[15] Er mwyn cyflawni hyn, fe ddywedom y canlynol:

a) Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio pob RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.

---

[13] Nodir y dyletswyddau hyn yn y fframwaith cyfreithiol yn Atodiad 2.

[14] Mae ymatebion yr ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi ar ein gwefan: Ymgynghoriad: Dynodi Gwasanaethau Dethol Radio – egwyddorion a dulliau argymhellion Ofcom - Ofcom

[15] Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd o RSS yn y DU i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol er mwyn ei ddynodi (adran 362BB(2) o'r Ddeddf).

b) Os ydym o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy, gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd y defnyddwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio dull sy'n golygu cyfuno mwy nag un metrig neu brocsi.

c) Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS i sicrhau triniaeth deg.

3.6 Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu ein bod yn asesu, mewn perthynas â phob RSS, y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio. Wrth wneud hynny, fe ddywedom yn gyffredinol byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Fe ddywedom y byddwn o bosibl yn ystyried ystod eang o wybodaeth (fel lle mae'r gwrando'n digwydd, pa mor aml ac am ba hyd mae defnyddwyr yn gwrando ar radio rhyngrwyd) yn ein dull gweithredu.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.7 Yn gyffredinol, roedd y rhai a oedd wedi ymateb i'n hymgynghoriad yn cytuno'n fras â'n cynigion. Roeddent wedi rhoi'r sylwadau canlynol.

3.8 Wrth fesur defnyddwyr, awgrymodd y BBC y dylai Ofcom ystyried dynodi'r system sylfaenol 'label gwyn', yn hytrach na'r system sy'n wynebu'r defnyddiwr neu frand y cynorthwyydd llais. Mae'r BBC o'r farn y byddai hyn yn cwmpasu'r ystod lawn o'r defnydd gan ddefnyddwyr ac felly gwir lefel gronnus y defnydd, ac y byddai'n mynd i'r afael ag achosion lle, er enghraifft, mae gwneuthurwyr ceir wedi brandio RSS presennol, yn hytrach na datblygu datrysiad pwrpasol.[16]

3.9 Roedd News UK am ddeall y pwysau mae Ofcom yn bwriadu ei roi ar y gwahanol ffactorau a fyddai'n penderfynu ar ein hargymhellion o ran dynodi. Er enghraifft, roedd News UK yn teimlo ei bod yn briodol dynodi RSS "pe bai'n cael ei ddefnyddio gan nifer cymharol fach o bobl yn y DU... ond mae'r rhai sy'n ei ddefnyddio yn tueddu i'w ddefnyddio'n aml er mwyn gwrando ar IRS a gwrando am gyfnodau hir."[17]

3.10 Dywedodd Radiocentre y dylai ein hargymhellion fod yn seiliedig ar ddata cadarn, ond ni ddylai Ofcom roi arwyddocâd anghymesur i nifer y bobl sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio (yn hytrach na'i ddefnyddio i reoli dyfais, larwm neu amserydd clyfar yn y cartref). Yn hytrach, dywedodd Radiocentre y gall Ofcom dybio mai'r sefyllfa os bydd gan gynorthwywyr llais sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr cyffredinol yw y bydd ganddynt nifer sylweddol o ddefnyddwyr radio hefyd.[18] Nododd Radiocentre hefyd ei bod yn bosibl y bydd y rhai sy'n defnyddio cynorthwyydd llais, ond nid ar gyfer radio, yn dechrau gwneud hynny yn y dyfodol agos.[19]

3.11 Ar ben hynny, dywedodd Radiocentre nad yw'n glir pam y gallai hyd cyfnod gwrando fod yn berthnasol i argymhelliad posibl ar gyfer dynodiadau neu fwriad y polisi sy'n sail i'r ddeddfwriaeth. Yn hytrach, roedd o'r farn mai dibyniaeth y radio ar gynorthwyydd llais penodol – a'r posibilrwydd o ymddygiad porthgadw niweidiol – oedd y brif risg y bwriedir i'r rheoliad fynd i'r afael â hi.[20]

[16] Ymateb y BBC i'r ymgynghoriad, t.2
[17] Ymateb News UK, t.3
[18] Ymateb Radiocentre, t.5-6
[19] Ymateb Radiocentre, t.5
[20] Ymateb Radiocentre, t.6

3.12 Roedd ymatebydd arall ✂ yn cytuno y bydd angen defnyddio procsi yn ein hasesiad, ond dylid defnyddio unrhyw brocsi o'r fath yn dryloyw, a dylid caniatáu i'r diwydiant roi adborth cyn unrhyw benderfyniad terfynol.

3.13 Roedd rhai ymatebion yn canolbwyntio ar rannu eu dealltwriaeth o ba wasanaethau gellid eu hystyried yn RSS. Gofynnodd Sky am eglurhad gan Ofcom na fyddai cwmpas y drefn yn ymestyn i "wasanaethau teledu" fel gwasanaethau Sky – gan nodi nad prif swyddogaeth eu gwasanaethau yw gwrando ar y radio ac nad yw defnyddwyr yn gallu chwarae cynnwys yn uniongyrchol heb ryngweithio eu hunain ar eu hochr nhw – ac felly na ddylid ystyried eu dynodi.[21] Nododd ymatebydd arall ✂ ei ddealltwriaeth na fyddai math penodol o ddyfais cynorthwyydd llais ✂ yn cyfrif fel RSS, ond bod dyfeisiau sy'n darparu radio i ymateb yn uniongyrchol i orchymyn llais a phan fydd y gwasanaethau hynny'n cyrraedd y trothwy defnydd sylweddol yn cyfrif fel RSS. Roeddent yn rhagweld na fyddai'r rhan fwyaf o'r math penodol hwnnw o ddyfais ✂ yn bodloni'r meini prawf diffiniadol neu'r trothwy defnydd sylweddol i'w ddynodi.

## Ein hymateb

3.14 Rydym wedi ystyried sylwadau News UK a Radiocentre ynghylch sut rydym yn pwysoli metrigau data. Fel y nodir yn ein Hegwyddorion a'n Dulliau, byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy ar gyfer mesur, yn ogystal â chyflawni'r gofyniad ein bod yn adrodd ar nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'r ffordd maent yn ei ddefnyddio. Gall hyn olygu defnyddio amrywiaeth o brocsis a metrigau data os oes angen. Gan y gallai hyn newid i bob adroddiad rydym yn eu llunio ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol, nid ydym yn credu y byddai'n briodol neilltuo pwysoliad cyffredinol yn ein Hegwyddorion a'n Dulliau i unrhyw ffactor penodol.

3.15 Rydym yn nodi sylwadau Radiocentre ar gynnwys hyd cyfnod gwrando fel enghraifft o ddull defnyddio. Rydym yn ystyried hyd cyfnod gwrando fel enghraifft o'r gwahanol ffyrdd y gallwn asesu sut mae cynulleidfaoedd yn defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Gallai hyd cyfnod gwrando fod yn fetrig perthnasol yn y dyfodol. Byddwn yn ymgynghori ar y metrig(au) rydym wedi'i ddewis o ran dull defnyddio bob tro byddwn yn paratoi adroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau ar y dull gweithredu rydym wedi'i ddewis.

3.16 Rydym yn nodi sylwadau Radiocentre y gall Ofcom dybio mai'r sefyllfa os bydd gan gynorthwyydd llais sydd â nifer sylweddol o ddefnyddwyr cyffredinol (hy gan gynnwys y rhai nad ydynt yn defnyddio'r cynorthwyydd i wrando ar radio rhyngrwyd) yw y bydd ganddynt nifer sylweddol o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r cynorthwyydd i wrando ar radio rhyngrwyd hefyd. Mae'n rhaid i ni asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Ar ben hynny, rydym yn nodi sylwadau Radiocentre y gallai aelodau o'r cyhoedd nad ydynt yn defnyddio cynorthwyydd llais ar hyn o bryd i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd wneud hynny yn y dyfodol. Rydym o'r farn y byddwn yn gallu ymateb i newidiadau yn y defnydd o wasanaethau dethol radio drwy ein rôl monitro o dan adran 362BZ1 o'r Ddeddf[22] a pharatoi adroddiadau dilynol ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol i argymell dynodi.

[21] Ymateb Sky, t.2

[22] Mae'r adran hon yn datgan bod gan OFCOM y swyddogaeth o gael, llunio a pharhau i adolygu gwybodaeth am faterion a allai fod yn berthnasol i—(a) ddynodi neu ddiddymu dynodiad gwasanaeth dethol radio (gweler adrannau 362BB a 362BD).

3.17 Mewn perthynas â ✂ a sylwadau Sky am gwmpas y diffiniad o RSS. Rydym yn nodi nad yw'r diffiniad statudol yn cyfeirio at fathau penodol o ddyfeisiau mae RSS yn cael ei ddarparu arnynt. Mae'r Ddeddf yn datgan bod yn rhaid i wasanaeth fod yn gallu chwarae radio ar ôl cael gorchymyn llais gan ddefnyddwyr er mwyn cael ei ystyried yn RSS (nid dim ond darparu canlyniadau chwilio i ddewis ohonynt).[23]

3.18 Rydym yn nodi sylwadau'r BBC y gallai Ofcom fod eisiau ystyried ai system sylfaen "label gwyn" ddylai gael ei dynodi yn hytrach na'r system sy'n wynebu'r defnyddiwr. Rydym yn deall bod y cyfeiriad at systemau sylfaen label gwyn yn golygu amgylchiadau pan fydd RSS yn cael ei sefydlu gan un cwmni ac yna'n cael ei werthu gan gwmni arall (neu gwmnïau eraill) o dan ei enw brand ei hun, a phan mai newid yn y brand yw'r unig wahaniaeth. Rydym o'r farn y byddai ein datganiad Egwyddorion a Dulliau yn ein galluogi ni i ystyried ffactorau fel hyn os ydym yn credu ei bod yn berthnasol ac yn briodol ar gyfer gwneud ein hargymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol.

3.19 Mewn perthynas â phryder gan un ymatebydd am dryloywder, bydd cyfle i randdeiliaid weld ein hasesiad o niferoedd defnyddwyr, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o brocsi, bob tro y byddwn yn ymgynghori ar ein hargymhellion arfaethedig i'r Ysgrifennydd Gwladol.

### Ein penderfyniad

3.20 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau arfaethedig ar gyfer asesu nifer defnyddwyr RSS yn y DU a sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth, fel y nodir isod.

**Egwyddorion a Dulliau ar gyfer nifer y defnyddwyr**

Bydd Ofcom yn asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. I gyflawni hyn:

a) Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio pob RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.

b) Os byddwn o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy, mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio procsi ar gyfer nifer y defnyddwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio dull sy'n golygu cyfuno mwy nag un metrig neu brocsi.

Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS er mwyn eu trin yn deg.

**Egwyddorion a Dulliau ar gyfer y ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio**

Yn gyffredinol byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Mae'n bosibl y byddwn yn ystyried ystod eang o wybodaeth (fel lle mae'r gwrando'n digwydd (yn y cartref, y car ac ati), pa mor aml ac am ba hyd mae defnyddwyr yn gwrando ar radio rhyngrwyd).

## Lefel sylweddol o ddefnydd

[23] Adran 362BA (1) o'r Ddeddf

## Yr hyn roedden ni'n ei gynnig

3.21 Yn ein hymgynghoriad, roeddem yn cynnig gosod trothwy ar gyfer lefel sylweddol o ddefnydd. Wrth wneud hynny, fe ddywedom y byddem yn:

a) sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS.

b) ystyried yn gyffredinol pa lefel rydym ni o'r farn sy'n sylweddol bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad, gan ystyried y ffactorau perthnasol ar y pryd. Felly, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion o'r blaen, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur, gan ystyried y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr RSS.

3.22 Fe ddywedom y byddwn yn argymell dynodi RSS ar lefel y trothwy neu ar lefel uwch fel arfer, ond ei bod yn bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol peidio â gwneud hynny mewn rhai amgylchiadau – er enghraifft, os yw'r defnydd o RSS yn lleihau ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl y dynodiad. Fe ddywedom y byddem yn esbonio ein dull gweithredu mewn achosion o'r fath.

## Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.23 Er bod yr ymatebwyr, ar y cyfan, o blaid ein cynigion, soniodd nifer am ffactorau penodol a oedd yn berthnasol yn eu barn nhw wrth asesu a yw defnydd yn cyrraedd lefel sylweddol.

3.24 Cyfeiriodd Radiocentre a News UK at ddarparwyr RSS presennol sy'n integreiddio deallusrwydd artiffisial yn eu gwasanaethau, a'r posibilrwydd y bydd darparwyr deallusrwydd artiffisial yn ymuno â'r farchnad cynorthwyydd llais radio yn y dyfodol. Teimlai Radiocentre y dylai cynorthwywyr llais sy'n eiddo i un llwyfan ac yn cael eu gweithredu gan un llwyfan gael eu dynodi hyd yn oed os bydd eu cyfran o'r farchnad yn newid yn arwynebol wrth i ddeallusrwydd artiffisial gael ei integreiddio'n ddyfnach.[24] Gofynnodd News UK i Ofcom amlinellu enghreifftiau a fyddai'n sbarduno adolygiad o'r trothwy dynodi.[25] Roedd Radiocentre yn rhannu'r farn honno, a dywedodd y dylai Ofcom ganiatáu i'r trothwy lefel sylweddol gael ei adolygu'n gyson wrth i'r farchnad esblygu, gan ddweud pa mor aml y dylai adolygiadau o'r fath gael eu cynnal.[26]

3.25 Dywedodd Radiocentre y dylai Ofcom ystyried y posibilrwydd o rannu'r farchnad, lle mae'n bosibl na fydd nifer llai o gynorthwywyr llais yn cyrraedd lefelau sylweddol ar eu pen eu hunain ond y byddent, gyda'i gilydd, yn cynrychioli cyfran sylweddol o'r farchnad drwyddi draw. Dywedodd Radiocentre y byddai Ofcom o bosibl am ystyried maint y cwmni sy'n cynnig y gwasanaeth cynorthwyydd llais – er enghraifft, os bydd cynorthwywyr llais newydd yn cael eu lansio, mae'n bosibl y byddant yn dod o dan y drefn newydd os byddant yn cael eu cynnig gan gwmnïau technoleg mawr... sy'n ddigon mawr ac sydd â digon o gyrhaeddiad i gyrraedd trothwy defnydd sylweddol yn gyflym.[27] Dywedodd Radiocentre hefyd y dylai Ofcom ystyried y gallai rhai grwpiau demograffeg fod yn defnyddio llwyfan ar lefel sylweddol, ond na fydd hyn o reidrwydd yn cael ei gofnodi o bosibl os ystyrir y trothwy yng nghyd-destun yr holl oedolion.

[24] Ymateb Radiocentre, t.8
[25] Ymateb News UK, t.4
[26] Ymateb Radiocentre, t.8
[27] Ymateb Radiocentre, t.9

3.26 Roedd ein hegwyddorion a'n dulliau drafft yn datgan na fyddem o bosibl yn argymell dynodiad RSS os oedd y dystiolaeth yn awgrymu nad oedd y defnydd yn debygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl y dynodiad. Awgrymodd y BBC y dylai Ofcom ystyried sut gallai dynodiadau ddigwydd yn gyflym wrth i'r defnydd gynyddu, ond hefyd y dylai'r llinell ar gyfer tynnu RSS o'r system reoleiddio os bydd yn disgyn o dan y trothwy cyrhaeddiad fod yn wahanol i'r llinell ar gyfer dynodi.[28] Er enghraifft, awgrymodd y BBC y dylid cael cyfnod o ddwy flynedd o leiaf cyn y bydd dynodiad RSS yn cael ei ddirymu, er mwyn gwarchod buddiannau'r rheini sydd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers tro.

3.27 Teimlai ymatebydd arall ✂ nad oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys llawer o fanylion am yr egwyddorion a'r dulliau a gynigiwyd ar gyfer asesu a yw'r defnydd yn cyrraedd lefel sylweddol. Dywedodd fod rhaid i'r meini prawf ar gyfer asesu defnydd sylweddol gael eu hamlinellu'n glir ac yn dryloyw, fod yn gymesur ac y gallent newid dros amser oherwydd cyd-destun a ffactorau allanol.

## Ein hymateb

3.28 Rydym yn cytuno â'r ymatebwyr a awgrymodd y dylai Ofcom ymateb i ddatblygiadau yn y farchnad RSS. Rydym ni o'r farn y bydd yr Egwyddorion a'r Dulliau a gynigiwyd yn ein galluogi i ystyried unrhyw drothwy neu ffactor perthnasol yn yr amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd. Am yr un rheswm, nid ydym yn credu y byddai'n ddefnyddiol i'r Egwyddorion a'r Dulliau amlinellu enghreifftiau a fyddai'n sbarduno adolygiad dynodi, nac amlder yr adolygiad, oherwydd y gallent ddyddio.

3.29 O ran awgrym Radiocentre ein bod yn ystyried maint darparwr yr RSS wrth wneud argymhellion, yn unol â'r Ddeddf, byddwn yn argymell dynodi RSS dim ond pan fyddwn o'r farn bod lefel y defnydd yn sylweddol.

3.30 Awgrymodd y BBC yn ei ymateb y dylid cael cyfnod gofynnol o amser (o leiaf ddwy flynedd) lle dylai cyrhaeddiad RSS fod yn gyson is na'r trothwy cyn iddo gael ei dynnu o'r system reoleiddio. Mae'r broses ar gyfer dirymu dynodiad RSS yn cael ei hegluro yn adran 362BD o'r Ddeddf. Mater i'r Ysgrifennydd Gwladol yw penderfynu dirymu dynodiad RSS.

3.31 O ran yr ymatebydd ✂ a ddywedodd nad oedd yr Egwyddorion a'r Dulliau yn cynnwys llawer o fanylion, yn ein hymgynghoriad yn nes ymlaen eleni byddwn yn darparu manylion y meini prawf ar gyfer lefel sylweddol rydym ni'n credu y mae'n briodol eu defnyddio.

## Ein penderfyniad

3.32 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r egwyddorion a'r dulliau a gynigiwyd gennym ar gyfer asesu a yw'r defnydd o wasanaeth yn cyrraedd lefel sylweddol, fel y nodir isod.

**Yr Egwyddorion a'r Dulliau ar gyfer asesu a yw'r defnydd o wasanaeth yn cyrraedd lefel sylweddol**

Byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:

a) Wrth osod y trothwy hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS.

b) Bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad, byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a

[28] Ymateb y BBC, t2

allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod yr hyn sy'n sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. Felly, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion o'r blaen, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn cadw mewn cof y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr RSS.

Yn gyffredinol, byddwn yn argymell dynodi RSS ar drothwy rydym yn ystyried sy'n lefel sylweddol o ddefnydd, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a'r dulliau eraill yn y datganiad hwn, mae'n bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi RSS o'r fath. Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddem yn argymell dynodi RSS os yw tystiolaeth yn awgrymu bod lefel y defnydd yn gostwng ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell, neu nad ydym wedi argymell, dynodi RSS sydd ar y trothwy neu'n uwch na hynny.

## Materion perthnasol ychwanegol ac egwyddorion cyffredinol

3.33 Yn ein hadroddiad, rhaid i ni hefyd gynnwys ein hasesiad o unrhyw faterion rydym yn credu sy'n debygol o effeithio ar ein hasesiad o nifer y bobl sy'n defnyddio RSS; sut caiff yr RSS ei ddefnyddio; ac a yw lefel y defnydd yn sylweddol.

3.34 Yn ein datganiad drafft ar yr Egwyddorion a'r Dulliau, dywedwyd y gallai'r materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar wasanaethau radio drwy'r RSS. Eglurwyd bod perthnasedd ffactor yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau ar y pryd.

3.35 Fe wnaethom hefyd gynnig dilyn set o egwyddorion cyffredinol:

a) Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad, a sut mae'r dull hwnnw'n cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.
b) Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol i'r rheini a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol, byddwn yn egluro pam rydym wedi gwneud hynny.
c) Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362BQ o'r Ddeddf i gasglu tystiolaeth a fydd yn sail i'n hadroddiad.
d) Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.[29]

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.36 Roedd yr ymatebwyr o blaid ein cynigion ar y cyfan, ond gwnaeth rhai ohonynt bwyntiau ychwanegol.

3.37 Cynigiodd News UK ein bod yn ystyried i ba raddau y mae meddalwedd sy'n ymateb i lais ar gael ar draws dyfeisiau – er enghraifft, RSS yn cael ei ragosod ar ddyfeisiau. Roedd hefyd yn awgrymu ein bod yn ystyried a yw llwyfan RSS yn gweithredu mewn marchnadoedd eraill,

[29] Adran 362BC(5) o'r Ddeddf

fel hysbysebu neu chwilio, a allai gael ei ddefnyddio yn erbyn IRS ar faterion fel pa mor hawdd yw dod o hyd i gynnwys.[30]

3.38 Roedd Radiocentre yn cytuno â'n cynigion.[31] Os byddwn yn credu bod angen gwyro oddi wrth yr egwyddorion a'r dulliau, yn ôl Radiocentre dylem ddarparu esboniad cynhwysfawr ar gyfer y newid hwn ac ymgynghori â'r diwydiant ymlaen llaw.

## Ein hymateb

3.39 O ran awgrym News UK y gallem ystyried i ba raddau y mae meddalwedd RSS sylfaenol ar gael – fel cael ei gosod ymlaen llaw ar ddyfeisiau – os byddwn yn credu bod hyn yn ffactor perthnasol ychwanegol, byddwn yn egluro hyn yn ein hasesiad.

3.40 O ran barn News UK ein bod yn ystyried i ba raddau y mae llwyfan RSS yn gweithredu mewn diwydiannau eraill, nodwn fod y Ddeddf Cyfryngau yn nodi paramedrau penodol ar gyfer ein hasesiad o bob RSS – hynny yw, nifer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth; sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio; ac a yw'n ddefnydd sylweddol; yn ogystal ag unrhyw faterion eraill *sy'n ymwneud â'r ffactorau hyn*.[32]

3.41 Byddwn yn gweithredu'n dryloyw wrth roi Rhan 6 o'r Ddeddf Cyfryngau ar waith. Byddwn yn egluro ein methodoleg wrth asesu pob RSS at ddibenion adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ystyried ac ymateb i'n cyngor arfaethedig ar ddynodi.

## Ein penderfyniad

3.42 Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion a ddarparwyd gan randdeiliaid, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen fel y nodir isod.

| **Egwyddorion a Dulliau ar gyfer materion perthnasol ychwanegol** |
|---|
| Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.<br><br>Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar wasanaethau radio drwy'r RSS. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau ar yr adeg y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn hefyd yn ystyried pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi gwasanaeth dethol radio os yw lefel y defnydd yn sylweddol mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, tra mewn cerbyd fel y cyfeirir ato yn Adran 362BB(2)). |

| **Egwyddorion Cyffredinol ein Hegwyddorion a'n Dulliau** |
|---|
| Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad, a sut mae'r dull hwnnw'n cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn. |

[30] Ymateb News UK, t.4
[31] Ymateb Radiocentre, t.10
[32] Adran 362BC o'r Ddeddf

Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol i'r rheini a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol, byddwn yn egluro pam rydym wedi gwneud hynny.

Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362BQ o'r Ddeddf i gasglu tystiolaeth a fydd yn sail i'n hadroddiad.

Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Cwestiwn atodol a sylwadau eraill a gawsom

3.43 Yn ein hymgynghoriad, trafodwyd rhinweddau gwahanol ffynonellau data y gallem eu defnyddio.

3.44 Fe ddywedom ein bod wedi ystyried y ffynonellau data y gallem eu defnyddio yn ein hadroddiad cyntaf. Wrth ystyried y newidiadau mewn patrymau gwrando, dywedom y byddwn yn rhoi pwys arbennig ar ddata cyfredol a diweddar o bosibl, yn hytrach na ffynonellau data hanesyddol, ac y byddwn o bosibl yn ystyried ystod eang o wybodaeth. Y ddau brif gategori o ffynonellau a nodwyd gennym oedd data gan y gynulleidfa, gan gynnwys arolygon trydydd parti sefydledig fel RAJAR ac IPA TouchPoints a'n hymchwil defnyddwyr ein hunain, a data gan y diwydiant.

3.45 Roeddem wedi cynnwys cwestiwn atodol yn ein hymgynghoriad, a oedd yn gofyn am farn ymatebwyr ar ffynonellau data posibl ar gyfer ein hadroddiad cyntaf.

### Yr hyn a ddywedodd yr ymatebwyr

3.46 Roedd Radiocentre a News UK yn cytuno bod defnyddio nifer o ffynonellau data yn ffordd briodol o lywio penderfyniadau dynodi, ond roeddent yn teimlo y dylid rhoi mwy o bwyslais ar ffynonellau data annibynnol, yn enwedig RAJAR, i lywio asesiadau yn hytrach nag ar ddata a ddaw i law gan lwyfannau y byddai'n anoddach eu dilysu yn eu barn nhw. Dywedodd Radiocentre y dylai Ofcom fod yn agored ynghylch sut mae'n defnyddio data ffrydio a RAJAR i asesu nifer y defnyddwyr a sut maen nhw'n defnyddio'r gwasanaeth.[33]

### Ymateb Ofcom

3.47 Rydym yn cytuno bod ffynonellau data trydydd parti a RAJAR yn bwysig i'n dealltwriaeth o sut mae RSS yn cael ei ddefnyddio, a'u bod yn rhoi cyd-destun i'r farchnad. Byddwn yn egluro sut rydym wedi defnyddio gwahanol ffynonellau data, a pham rydym wedi gwneud hynny, yn ein hadroddiad cyntaf.

# Casgliadau a'r camau nesaf

3.48 Ar ôl rhoi ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad, sy'n gefnogol ar y cyfan i'n datganiad a roddwyd ger bron, ac ar ôl ystyried ein dyletswyddau perthnasol o dan y Ddeddf,[34] rydym wedi penderfynu cwblhau'n derfynol ein Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau heb ei ddiwygio.

[33] Ymateb Radiocentre, t.7

[34] Mae hyn yn cynnwys ein dyletswyddau cyffredinol o dan adran 3 o'r Ddeddf.

3.49 Rydym yn bwriadu dilyn ein Hegwyddorion a’n Dulliau ac ystyried yr ymatebion a oedd wedi cynnig mewnbwn ynghylch y ffordd y dylem fynd ati i wneud ein hargymhellion wrth lunio ein hadroddiad cyntaf i’r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch ein hargymhellion dynodi.

3.50 Mae’n ddefnyddiol clywed barn rhanddeiliaid am y data y gallem ei ddefnyddio i wneud ein hargymhellion, a’u barn ynghylch sut byddwn yn bwrw ymlaen â’n rôl i wneud argymhellion. Byddwn yn ystyried y pwyntiau hyn wrth ddatblygu ein hargymhellion – y byddwn yn ymgynghori arnynt yn nes ymlaen eleni – cyn cyflwyno ein hadroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ei ystyried.

# A1. Datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau

## Gwybodaeth am y ddogfen hon

A1.1 Y ddogfen hon yw'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau i'w defnyddio gan Ofcom wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch dynodi gwasanaethau dethol radio o dan Adran 362BC o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ("y Ddeddf"). Mae Adran 362BC(7) o'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn llunio ac yn cynnal datganiad sy'n nodi'r egwyddorion a'r dulliau hyn.

## Y fframwaith cyfreithiol

A1.2 Nod y drefn gwasanaeth dethol radio yn Rhan 3B o'r Ddeddf yw sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu cael gafael ar ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio'r DU mewn amgylchiadau penodol, sef pan fydd gwrandawyr yn defnyddio eu llais i ofyn am wasanaeth dethol radio (byddwn yn egluro beth yw gwasanaeth dethol radio yn yr adran ganlynol). Er mwyn cyflawni hyn, rhaid i ddarparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig sicrhau pan fydd gwrandawyr yn gofyn am wasanaeth radio penodol yn y DU, bod y gwasanaeth dethol radio yn chwarae'r gwasanaeth hwnnw.[35] Mae'r drefn hefyd yn rhoi gofynion eraill ar ddarparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig sy'n ymwneud â throshaenu neu darfu ar y ffrwd ar-lein gyda chynnwys arall,[36] a'r dull a ddefnyddir i chwarae'r ffrwd ar-lein.[37] Mae'r gofynion hyn yn amodol ar ddewisiadau a osodir gan ddefnyddwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig.[38] Ar ben hynny, mae darparwyr gwasanaethau dethol radio dynodedig wedi'u gwahardd rhag codi tâl ar ddarparwyr ffrydiau ar-lein gorsafoedd radio yn y DU am wneud yr hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r drefn.[39]

A1.3 Mae ffrydiau ar-lein o wasanaethau radio yn cael eu galw'n "wasanaethau radio rhyngrwyd".[40] Yn gryno, mae'r drefn gwasanaeth dethol radio yn berthnasol i wasanaethau radio rhyngrwyd sy'n cyfateb[41] i wasanaethau radio analog neu DAB yn y DU sy'n cael eu darparu gan y BBC neu sy'n cael eu darparu o dan drwydded darlledu a roddir gennym ni.[42] Mae'r rhain yn cael eu galw yn "wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol" a byddant yn cael eu cynnwys mewn rhestr a gedwir gennym ni.[43]

A1.4 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi gwasanaethau dethol radio penodol.[44] Yr unig adeg caiff yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer hwn yw os yw'n credu

[35] Adran 362BI(1) o'r Ddeddf.
[36] Adran 362BI(2) o'r Ddeddf.
[37] Adran 362BI(3), (4) a (5) o'r Ddeddf.
[38] Adran 362BI(5) o'r Ddeddf
[39] Adran 362BI(6) o'r Ddeddf.
[40] Mae "gwasanaeth radio rhyngrwyd" yn cael ei ddiffinio yn adran 362BF o'r Ddeddf.
[41] Mae ystyr "cyfateb" wedi'i nodi yn adran 362BG(4) o'r Ddeddf.
[42] Mae'r categorïau penodol o wasanaethau radio analog a DAB sydd o fewn cwmpas y drefn wedi'u nodi yn adran 362BI(11).
[43] Mae "gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol" yn cael ei ddiffinio yn adran 362BG o'r Ddeddf.
[44] Adran 362BB(1) o'r Ddeddf.

bod lefel “sylweddol” o bobl yn defnyddio’r gwasanaeth dethol radio yn y DU i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Gall hyn fod yn lefel o ddefnydd mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn ei hystyried sy’n sylweddol mewn rhai amgylchiadau, megis tra mewn cerbyd.[45]

A1.5 Rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom cyn gwneud neu ddiwygio rheoliadau dynodi.[46] Rhaid i’n hadroddiad nodi argymhellion ar sut y dylai’r Ysgrifennydd Gwladol arfer ei bwerau gwneud rheoliadau. Mae’n bosibl y byddwn yn penderfynu paratoi adroddiad o’r fath ar ein liwt ein hunain.[47] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn i ni baratoi adroddiad, ac os felly rhaid i ni wneud hynny cyn gynted ag sy’n ymarferol.[48]

A1.6 Mae’r Ddeddf yn rhoi pwerau casglu gwybodaeth i Ofcom y gellir eu defnyddio i gael gafael ar wybodaeth sy’n angenrheidiol yn ein barn ni er mwyn llywio ein hadroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol.[49] Mae’r pwerau hyn yn caniatáu i Ofcom fynnu bod y sawl sy’n derbyn y cais yn cael neu’n cynhyrchu gwybodaeth.[50]

A1.7 Rhaid i Ofcom gyhoeddi datganiad am yr egwyddorion a’r dulliau y bydd yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol. Y ddogfen hon yw’r datganiad hwnnw. Cawn ddiwygio neu ddisodli’r datganiad hwn.[51]

A1.8 Mae fframwaith cyfreithiol manylach wedi’i amlinellu yn Atodiad 2.

## Egwyddorion a dulliau ar gyfer paratoi ein hadroddiad ar ddynodi gwasanaethau dethol radio

### Beth yw gwasanaeth dethol radio?

A1.9 Mae gwasanaeth dethol radio neu RSS yn wasanaeth sy’n cael ei ddarparu drwy’r rhyngrwyd sy’n galluogi (neu ymysg pethau eraill sy’n galluogi) y defnyddiwr i wneud y pethau canlynol drwy roi “gorchmynion llafar” sy’n cael eu recordio gan offer sydd wedi’i gysylltu â’r rhyngrwyd:

a) dewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a
b) gwneud i wasanaeth radio penodol ar y rhyngrwyd chwarae.[52]

A1.10 Er mwyn dod o fewn y diffiniad o RSS, rhaid i wasanaeth allu chwarae gwasanaethau radio rhyngrwyd i ymateb i orchymyn llais gan ddefnyddiwr. Ni fyddai gwasanaethau nad ydynt yn chwarae ffrydiau uniongyrchol o wasanaethau radio rhyngrwyd (er enghraifft, y rheini sydd ond yn gallu darparu dolenni i ddefnyddwyr gael mynediad at ffrydiau radio) yn bodloni’r diffiniad o ‘wasanaeth dethol radio’ o dan y Ddeddf.

[45] Adran 362BB(2) o’r Ddeddf.
[46] Adran 362BB(3) o’r Ddeddf.
[47] Adran 362BC(1) o’r Ddeddf.
[48] Adran 362BC(2) a (3) o’r Ddeddf.
[49] Adran 362BQ o’r Ddeddf.
[50] Adran 362BQ(2) o’r Ddeddf.
[51] Adran 362BC(7) ac (8) o’r Ddeddf.
[52] Adran 362BA(1) o’r Ddeddf. Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol addasu'r diffiniad o “wasanaeth dethol radio” o dan adran 362BA(2) o’r Ddeddf. Bydd Ofcom yn defnyddio’r diffiniad sydd mewn grym adeg paratoi adroddiad.

## Sut bydd Ofcom yn gwneud asesiadau

A1.11 Mae adran 362BC(3) o'r Ddeddf yn nodi'r materion mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried wrth baratoi adroddiad sy'n gwneud argymhellion ynghylch arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi RSS. Rhaid i adroddiad a baratoir gan Ofcom gynnwys asesiad, mewn perthynas â phob RSS dan sylw, o'r canlynol:

a) nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
b) sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth;
c) a yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol; a
d) materion mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), (b) neu (c).[53]

A1.12 Rydym yn nodi isod yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth asesu'r materion hyn.

### (a) Nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth

A1.13 Bydd Ofcom yn asesu nifer yr aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio'r RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.[54] Er mwyn cyflawni hyn:

a) Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu sail wrthrychol a dibynadwy i fesur nifer y bobl yn y DU sy'n defnyddio pob RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd.

b) Os ydym o'r farn na ellir mesur nifer y defnyddwyr unigol yn ddibynadwy, gallwn ddefnyddio procsi ar gyfer niferoedd y defnyddwyr. Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio dull sy'n golygu cyfuno mwy nag un metrig neu brocsi.

c) Byddwn yn defnyddio methodoleg gyson yn ein hasesiad o bob RSS er mwyn eu trin yn deg.

### (b) Sut mae'r bobl hynny'n defnyddio'r gwasanaeth

A1.14 Yn gyffredinol byddwn yn ystyried y gwahanol ffyrdd mae modd defnyddio RSS i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd. Mae'n bosibl y byddwn yn ystyried ystod eang o wybodaeth (fel lle mae'r gwrando'n digwydd (yn y cartref, y car ac ati), pa mor aml ac am ba hyd mae defnyddwyr yn gwrando ar radio rhyngrwyd).

### (c) A yw lefel y defnydd o'r gwasanaeth yn sylweddol

A1.15 Byddwn yn gosod trothwy sy'n sylweddol yn ein barn ni:

a) Wrth osod y trothwy hwn, byddwn yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol ar gael yn eang i ddefnyddwyr RSS.

b) Bob tro y byddwn yn paratoi adroddiad, byddwn yn ystyried yn gyffredinol pa lefel o ddefnydd sy'n sylweddol. Byddwn yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol a allai effeithio ar yr hyn sy'n sylweddol ar yr adeg benodol honno, gan gydnabod bod yr hyn sy'n sylweddol yn dibynnu ar gyd-destun. Felly, pan fyddwn wedi rhoi argymhellion o'r

[53] Adran 362BC o'r Ddeddf.
[54] Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd o RSS yn y DU i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol er mwyn ei ddynodi (adran 362BB(2) o'r Ddeddf).

blaen, byddwn yn ystyried a yw'r trothwy a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwnnw yn dal yn briodol.

c) Byddwn yn penderfynu ar y trothwy mewn ffordd gymesur. Byddwn yn cadw mewn cof y bydd dynodi RSS yn gosod rhwymedigaethau rheoleiddio ar ddarparwyr RSS.

A1.16 Yn gyffredinol, byddwn yn argymell dynodi RSS ar drothwy rydym yn ystyried sy'n lefel sylweddol o ddefnydd, neu'n uwch na hynny. Fodd bynnag, o ystyried yr egwyddorion a'r dulliau eraill yn y datganiad hwn, mae'n bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol peidio ag argymell dynodi RSS o'r fath. Er enghraifft, mae'n bosibl na fyddem yn argymell dynodi RSS os yw tystiolaeth yn awgrymu bod lefel y defnydd yn gostwng ac yn annhebygol o fod dros y trothwy am gyfnod rhesymol ar ôl ei ddynodi. Byddwn yn egluro pam rydym wedi argymell, neu nad ydym wedi argymell, dynodi RSS sydd ar y trothwy neu'n uwch na hynny.

### (d) Unrhyw faterion eraill mae Ofcom yn credu sy'n debygol o effeithio ar yr uchod

A1.17 Byddwn yn ystyried a fyddai'n briodol asesu unrhyw ffactorau eraill sy'n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt uchod, gan ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol.[55]

A1.18 Gall y materion hyn gynnwys lefel defnydd gan wahanol grwpiau cynulleidfa, dangosyddion marchnad fel amcanestyniadau twf neu ffactorau eraill yn y farchnad sy'n cyfrannu at y ffordd mae cynulleidfaoedd yn cael gafael ar wasanaethau radio drwy'r RSS. Mae perthnasedd y ffactorau hyn yn debygol o ddibynnu ar yr amgylchiadau ar yr adeg y byddwn yn paratoi adroddiad. Byddwn hefyd yn ystyried pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi gwasanaeth dethol radio os yw lefel y defnydd yn sylweddol mewn rhai amgylchiadau (er enghraifft, tra mewn cerbyd fel y cyfeirir ato yn Adran 362BB(2)).

## Egwyddorion cyffredinol

A1.19 Byddwn yn egluro pam rydym wedi defnyddio dull penodol yn ein hadroddiad, a sut mae'r dull hwnnw'n cyd-fynd â'r egwyddorion a'r dulliau a nodir yn y datganiad hwn.

A1.20 Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwn o'r farn ei bod yn briodol neu'n angenrheidiol dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol i'r rheini a nodir yn y datganiad hwn. Os byddwn yn dilyn egwyddorion a dulliau gwahanol, byddwn yn egluro pam rydym wedi gwneud hynny.

A1.21 Mae'n bosibl y byddwn yn defnyddio ein pwerau casglu gwybodaeth yn adran 362BQ o'r Ddeddf i gasglu tystiolaeth a fydd yn sail i'n hadroddiad.

A1.22 Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau a roddwn i'r Ysgrifennydd Gwladol.[56]

[55] Mae ein dyletswyddau statudol perthnasol wedi'u nodi yn yr atodiad i'r datganiad hwn.
[56] Adran 362BC(5) o'r Ddeddf.

# A2. Y Fframwaith Cyfreithiol

## Y Fframwaith Cyfreithiol

A2.1 Mae'r Atodiad hwn yn nodi'r fframwaith statudol ar gyfer dynodi gwasanaethau dethol radio (RSS) o dan Ran 3B o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf), a fewnosodwyd yn y Ddeddf gan Ran 6 o Ddeddf Cyfryngau 2024. Dim ond crynodeb o'r darpariaethau perthnasol yw'r Atodiad hwn, nid yw'n disodli cyfeiriad at y statud.

A2.2 Mae dyletswyddau cyffredinol Ofcom i gyflawni ei swyddogaethau hefyd yn berthnasol, i hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, drwy hybu cystadleuaeth lle bo hynny'n briodol.[57] Wrth wneud hynny, rhaid i Ofcom ystyried nifer o faterion gan gynnwys pa mor ddymunol yw hybu buddsoddiad ac arloesedd mewn marchnadoedd perthnasol.[58]

A2.3 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol, mae'n rhaid i Ofcom ystyried yr egwyddorion sy'n datgan y dylai gweithgareddau rheoleiddio fod yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur, yn gyson ac wedi'u targedu dim ond at achosion lle mae angen cymryd camau, ac unrhyw egwyddorion eraill sy'n ymddangos i Ofcom fel rhai sy'n gyfystyr â'r ymarfer rheoleiddio gorau.[59]

A2.4 Fel sy'n cael ei egluro ymhellach isod, bydd yn rhaid i RSS a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (RSS neu DRSS dynodedig) gydymffurfio ag amrywiol rwymedigaethau statudol sy'n ymwneud â mynediad at wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol. [60]

## Gwasanaethau dethol radio

A2.5 Mae'r Ddeddf yn diffinio bod RSS yn "wasanaeth sy'n cael ei ddarparu drwy'r rhyngrwyd sy'n galluogi, neu ymysg pethau eraill sy'n galluogi, defnyddiwr y gwasanaeth—(a) i ddewis rhwng gwasanaethau radio rhyngrwyd[61] a ddarperir gan wahanol ddarparwyr, a (b) gwneud i wasanaeth radio rhyngrwyd a ddewisir chwarae, drwy roi gorchmynion llafar sy'n cael eu recordio gan offer sydd wedi'i gysylltu â'r rhyngrwyd."[62]

A2.6 Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i ddynodi "gwasanaeth dethol radio".[63] Mae'r diwygiadau caiff yr Ysgrifennydd Gwladol eu gwneud yn cynnwys ychwanegu, dileu neu newid rhywbeth mae gwasanaeth dethol radio yn galluogi defnyddiwr i'w wneud.[64]

## Gwasanaethau dethol radio dynodedig

---

[57] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[58] Adran 3(4)(a) y Ddeddf.
[59] Adran 3(3) o'r Ddeddf.
[60] Adran 362BI o'r Ddeddf.
[61] Mae adran 362BF o'r Ddeddf yn diffinio gwasanaeth radio rhyngrwyd fel "gwasanaeth, neu adran ddatgysylltiol o wasanaeth, sy'n cynnwys darparu gan berson raglenni sy'n cynnwys sain yn unig (ynghyd ag unrhyw wasanaethau ategol) gyda'r bwriad o sicrhau eu bod ar gael i'w derbyn gan aelodau o'r cyhoedd drwy gael eu dosbarthu drwy gyfrwng y rhyngrwyd (boed hynny gan ddarparwr y gwasanaeth neu berson arall)".
[62] Adran 362BA(1) o'r Ddeddf.
[63] Adran 362BA(2) o'r Ddeddf.
[64] Adran 362BA(3) o'r Ddeddf.

A2.7 Mae “gwasanaeth dethol radio dynodedig” (DRSS) yn wasanaeth dethol radio sydd wedi’i ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy reoliadau.[65]

A2.8 Dim ond os yw’r Ysgrifennydd Gwladol o’r farn bod lefel y defnydd o’r gwasanaeth yn y Deyrnas Unedig i wrando ar wasanaethau radio rhyngrwyd yn sylweddol y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ddynodi gwasanaeth dethol radio (a chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ystyried bod lefel y defnydd yn sylweddol os yw’r Ysgrifennydd Gwladol o’r farn ei fod yn sylweddol mewn amgylchiadau penodol, er enghraifft tra mewn cerbyd).[66]

## Adroddiad Ofcom i’r Ysgrifennydd Gwladol

A2.9 Cyn i’r Ysgrifennydd Gwladol allu gwneud rheoliadau sy’n dynodi RSS, rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi cael adroddiad gan Ofcom, sy’n cynnwys argymhellion Ofcom ar ymarfer pwerau’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau i ddynodi’r gwasanaeth dethol radio dan sylw.[67]

A2.10 Gall Ofcom benderfynu ar ei liwt ei hun i ddarparu adroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol.[68] Fel arall, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ofyn am adroddiad gan Ofcom, ac os felly mae’n rhaid i ni baratoi un cyn gynted ag sy’n ymarferol.[69]

A2.11 Rhaid i adroddiad Ofcom gynnwys ein hasesiad o’r canlynol, mewn perthynas â phob gwasanaeth dethol radio dan sylw—

a) nifer yr aelodau o’r cyhoedd sy’n defnyddio’r gwasanaeth;

b) sut mae’r bobl hynny’n defnyddio’r gwasanaeth;

c) a yw lefel y defnydd o’r gwasanaeth yn sylweddol;

d) materion rydym yn credu sy’n debygol o effeithio ar y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff (a), (b) neu (c).[70]

A2.12 Rhaid i Ofcom ddarparu adroddiad o’r fath i’r Ysgrifennydd Gwladol a rhaid i ni hefyd ei gyhoeddi.[71]

A2.13 Mae rôl Ofcom o ran paratoi adroddiadau ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol wedi’i chyfyngu i argymhellion ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ddynodi RSS. Nid oes pŵer statudol i Ofcom ei hun ddynodi RSS.

A2.14 Os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn arfer ei bŵer i ddynodi mewn modd sy’n wahanol i’r argymhellion a wnaed yn adroddiad Ofcom, rhaid i’r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi, heb fod yn hwyrach na’r amser y gwneir y rheoliadau, ddatganiad o’r rhesymau dros wneud hynny.[72]

[65] Adran 362BB(1) o’r Ddeddf.
[66] Adran 362BB(2) o’r Ddeddf.
[67] Adran 362BC(2)(a) o’r Ddeddf.
[68] Adran 362BC(1) o’r Ddeddf.
[69] Adran 362BC(2) a (3) o’r Ddeddf.
[70] Adran 362BC(4) o’r Ddeddf.
[71] Adran 362BC(5) o’r Ddeddf.
[72] Adran 362BC(6) o’r Ddeddf.

## Datganiad Ofcom ar yr egwyddorion a'r dulliau

A2.15 Rhaid i Ofcom baratoi a chyhoeddi datganiad ar yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol, sy'n gwneud argymhellion am arfer ei bwerau i wneud rheoliadau dynodi.

A2.16 Cawn ddiwygio neu ddisodli'r datganiad hwnnw a rhaid inni gyhoeddi'r datganiad diwygiedig neu'r datganiad newydd.[73]

## Rhestr o wasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol

A2.17 Mae'r drefn newydd yn mynnu bod darparwyr RSS dynodedig yn cydymffurfio â gofynion sy'n ymwneud â darparu "gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol". Mae'r rhain yn wasanaethau radio rhyngrwyd sy'n cael eu cynnwys mewn rhestr a gedwir gan Ofcom.

A2.18 Dyma'r amodau mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i wasanaeth radio rhyngrwyd gael ei gynnwys ar y rhestr (a dod yn wasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol):

a) bod gan ddarparwr y gwasanaeth system neu broses effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn "cyfateb" i wasanaeth radio yn y DU sy'n cael ei ddarparu ganddynt. Mae gwasanaeth radio rhyngrwyd yn cyfateb i wasanaeth radio yn y DU os (heb ystyried hysbysebion) yw'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y gwasanaeth radio rhyngrwyd yn cael eu darlledu ar wasanaeth radio yn y DU ar yr un pryd ag y maent yn cael eu darparu gan y gwasanaeth radio rhyngrwyd; ac

b) mae darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd wedi rhoi hysbysiad i Ofcom yn gofyn am gael cynnwys y gwasanaeth ar y rhestr.

A2.19 Nid oes yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau radio yn y DU ddarparu ffrydiau ar-lein o'u gwasanaethau. Pan fydd darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol yn penderfynu rhoi'r gorau i ddarparu'r ffrwd ar-lein, rhaid iddo roi gwybod i Ofcom. Byddai Ofcom yn tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr ac felly ni fyddai'n wasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol mwyach.[74]

## Effaith dynodiad

A2.20 Pan fydd RSS yn cael ei ddynodi, rhaid i ddarparwr y DRSS gydymffurfio â'r drefn newydd. Mae crynodeb o'r gofynion sy'n berthnasol i ddarparwyr DRSS wedi'i nodi isod.

A2.21 Yn gyntaf, rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu dewis gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol, a gwneud iddynt chwarae, drwy roi gorchmynion llafar.[75]

A2.22 Yn ail, rhaid i ddarparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau, pan fydd y DRSS yn cael ei ddefnyddio fel y disgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, nad oes unrhyw eitemau'n cael eu chwarae cyn y gwasanaeth radio rhyngrwyd sydd wedi cael ei ddewis, ac nad oes unrhyw

[73] Adran 362BC(8) o'r Ddeddf.
[74] Adran 362BG(5) o'r Ddeddf. Gellir tynnu'r gwasanaeth oddi ar y rhestr drwy hysbysiad gan ddarparwr y gwasanaeth; a rhaid i'r darparwr roi hysbysiad i Ofcom os yw'n rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth radio rhyngrwyd neu'r gwasanaeth radio cyfatebol yn y DU, neu os yw darpariaeth y gwasanaeth radio rhyngrwyd wedi dod i ben.
[75] Adran 362BI(1) o'r Ddeddf.

darfu ar y gwasanaeth radio rhyngrwyd. Mae rhai eithriadau i'r gwaharddiad ar chwarae eitemau cyn y gwasanaeth radio rhyngrwyd sydd wedi cael ei ddewis:

a) ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r gwasanaeth radio rhyngrwyd sydd wedi cael ei ddewis;

b) os yw'r DRSS yn defnyddio gwasanaeth rhyngrwyd arall i wneud i'r gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd chwarae, ceir chwarae darn byr i ddynodi beth yw'r gwasanaeth rhyngrwyd arall hwnnw; a

c) gellir chwarae un neu fwy o hysbysebion, os yw darparwr y gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd yn cytuno.[76]

A2.23 Yn drydydd, os yw darparwr gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol yn gofyn i ddarparwr DRSS sicrhau bod y gwasanaeth yn defnyddio dull penodol o ran y gwasanaeth radio rhyngrwyd perthnasol hwnnw, rhaid i'r darparwr DRSS gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y dull hwnnw'n cael ei ddefnyddio wrth chwarae'r gwasanaeth radio rhyngrwyd a ddewiswyd.[77]

A2.24 Yn olaf, mae darparwyr DRSS wedi'u gwahardd rhag codi tâl ar ddarparwyr gwasanaethau radio rhyngrwyd perthnasol am wneud yr hyn mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS ei wneud i gydymffurfio â'r gofynion a ddisgrifir uchod.[78]

A2.25 Mae'r Ddeddf yn mynnu bod Ofcom yn cyhoeddi cod ymarfer sy'n argymell y camau y dylai darparwyr DRSS eu cymryd wrth geisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion hyn.[79] Mae'n rhaid i ddarparwyr DRSS hefyd lunio a chyhoeddi datganiad am sut maen nhw'n bwriadu cydymffurfio â'r gofynion.[80]

## Dyletswydd twf economaidd

A2.26 Mae Adran 108 o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 yn nodi dyletswydd Ofcom i ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth arfer ei swyddogaethau rheoleiddio. Er mwyn ystyried hyrwyddo twf economaidd, bydd Ofcom yn arfer ei swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau:

a) bod camau rheoleiddiol yn cael eu cymryd dim ond pan fydd eu hangen; a

b) bod unrhyw gamau a gymerir yn rhai cymesur.[81]

A2.27 Mae canllawiau statudol y llywodraeth ar y ddyletswydd hon yn cydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth ymysg y ffactorau sy'n sbarduno twf economaidd.

[76] Adran 362BI(2) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[77] Adran 362BI(3) a (4) o'r Ddeddf. Mae Adran 362BI(5) yn darparu nad yw'r rhwymedigaethau hyn ar ddarparwyr DRSS yn mynnu bod y darparwr yn diystyru dewisiadau defnyddwyr o ran y ffordd mae'r DRSS yn gweithredu.
[78] Adran 362BI(6) o'r Ddeddf.
[79] Adran 362BK o'r Ddeddf.
[80] Adran 362BJ o'r Ddeddf.
[81] Adran 108(2)(b) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

## Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

A2.28 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â'r nodweddion gwarchodedig canlynol: oed; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A2.29 Mae Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (Deddf 1998) hefyd yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau sy'n ymwneud â Gogledd Iwerddon, i roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal ac i roi sylw i ba mor ddymunol yw hyrwyddo cysylltiadau da ar draws ystod o gategorïau a amlinellir yn Neddf 1998. Mae Cynllun Cydraddoldeb Diwygiedig Gogledd Iwerddon Ofcom yn egluro sut rydym ni'n cydymffurfio â'n dyletswyddau statudol o dan Ddeddf 1998.

## Dyletswydd y Gymraeg

A2.30 Gwnaeth Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r safonau a roddwyd ar Ofcom wedi cael eu rhestru yn hysbysiad cydymffurfio Ofcom a ddaeth i rym ar 25 Ionawr 2017.

A2.31 Mae Safonau Llunio Polisïau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i Ofcom asesu (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth lunio polisi newydd neu adolygu neu ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli.

# A3. Asesiadau effaith

## Asesu effaith

A3.1 Mae Adran 7 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol gweithredu cynnig a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu'r cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom. Mae asesiadau effaith yn ein helpu i ddeall ein penderfyniadau polisi a pham rydym yn credu mai'r penderfyniadau hynny sy'n cyflawni ein dyletswyddau a'n hamcanion perthnasol yn y ffordd sy'n tarfu leiaf.[82]

A3.2 Roedd y dadansoddiad a gyflwynwyd drwy'r ddogfen ymgynghori (yn benodol adran 4) yn darparu ein hasesiad o effaith ein cynigion ac roedd yn gyfystyr ag asesiad effaith, yn unol â'r diffiniad yn adran 7 o'r Ddeddf. Mae Adran 3 o'r Datganiad hwn yn nodi ein hymatebion i sylwadau rhanddeiliaid a'n penderfyniadau, gan gynnwys ein hasesiad terfynol o effaith yr egwyddorion a'r dulliau y byddwn yn eu defnyddio wrth baratoi adroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yr adroddiad hwnnw'n cael ei baratoi ar gyfer swyddogaeth ymgynghorol, a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn gwneud y penderfyniad ar weithredu'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

A3.3 Byddwn yn cynnal asesiad pellach o'r effaith wrth lunio adroddiad o argymhellion ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol.

## Dyletswyddau cyffredinol

A3.4 Fel y nodir yn Atodiad 2, mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau cyffredinol ar Ofcom wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau. Rydym ni o'r farn bod y penderfyniadau rydym wedi'u gwneud yn y Datganiad hwn yn cyd-fynd â'r dyletswyddau hynny. Fel y nodwyd uchod, mae'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau yn cael ei baratoi at ddibenion paratoi cyngor, a'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn dod i benderfyniad ar weithredu'r argymhellion yn ein hadroddiad. Bydd cael egwyddorion clir a phriodol y byddwn yn seilio ein hadroddiad arnynt yn sicrhau y bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol wybodaeth lawn a phriodol i seilio ei benderfyniadau dynodi arni, gan helpu i gyflawni'r amcan o sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang. Felly, rydym o'r farn y bydd yr egwyddorion a'r dulliau yn Atodiad 1 yn hybu buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chyfathrebiadau a defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol.[83]

A3.5 Wrth gwblhau'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau statudol perthnasol. Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgarwch rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, ac ond yn targedu'r achosion hynny lle mae angen cymryd camau.[84] Fe wnaethom ymgynghori ar yr egwyddorion a'r dulliau a gynigiwyd gennym, ac rydym wedi ystyried ac ymateb i ymatebion rhanddeiliaid yn y ddogfen hon. Mae'r rhesymau dros ein penderfyniadau wedi'u nodi yn y Datganiad hwn.

---

[82] Ofcom, ['Impact assessment guidance'](), 2023.
[83] Adran 3(1) o'r Ddeddf.
[84] Adran 3(3) o'r Ddeddf.

A3.6 Rydym wedi ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo twf economaidd wrth ddod i benderfyniad ar y Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau. Byddwn yn parhau i ystyried y ddyletswydd twf economaidd wrth baratoi ein hadroddiad ar gyfer yr Ysgrifennydd Gwladol. Rydym o'r farn y bydd yr egwyddorion a'r dulliau rydym wedi'u sefydlu yn sicrhau ein bod yn arfer ein swyddogaethau rheoleiddio mewn ffordd sy'n sicrhau bod camau rheoleiddio'n cael eu cymryd dim ond pan fydd angen hynny, a bod unrhyw gamau a gymerir yn rhai cymesur, gan gydnabod bod arloesedd a chystadleuaeth yn sbarduno twf economaidd.[85]

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

A3.7 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd ar Ofcom, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf 2010.[86] Mae Deddf 2010 hefyd yn mynnu bod Ofcom yn rhoi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl nad ydynt yn rhannu'r nodweddion hynny.

A3.8 Mae gan Ofcom ddyletswyddau ar wahân ond ategol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb Gogledd Iwerddon[87]. Mae hyn yn mynnu bod Ofcom yn sgrinio polisïau am eu heffaith ar gyfle cyfartal a/neu gysylltiadau da ym mhob un o'r naw categori cydraddoldeb a nodwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon.

A3.9 Fel y nodir uchod, mae'r Datganiad ar yr Egwyddorion a'r Dulliau yn cael ei baratoi mewn perthynas â swyddogaeth gynghori. Fe wnaethom egluro yn Atodiad 3 i'n hymgynghoriad nad oeddem yn disgwyl i'r egwyddorion a'r dulliau a gynigiwyd gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb. Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad. Fel y nodwyd yn y Datganiad hwn, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n hegwyddorion a'n dulliau fel y'u cynigiwyd, ac felly'n cadarnhau nad ydym yn disgwyl i'r egwyddorion a'r dulliau a gynigir gennym gael unrhyw effeithiau niweidiol ar gydraddoldeb.

A3.10 Byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wrth baratoi adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

## Y Gymraeg

A3.11 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.[88] I roi hyn ar waith mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg o ran defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.[89] Yn unol â hyn, rydym ni wedi ystyried effaith bosibl ein hadolygiad ar (i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

[85] Adran 108(2)(b) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015.
[86] Y nodweddion gwarchodedig hyn yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.
[87] Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.
[88] Adran 1(1), Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
[89] Mae safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i Ofcom gydymffurfio â nhw ar gael ar ein gwefan.

A3.12 Fe wnaethom egluro yn Atodiad 3 i’n hymgynghoriad ein bod ni o’r farn na fyddai’r egwyddorion a’r dulliau a gynigiwyd gennym yn trin y Gymraeg yn wahanol i’r Saesneg, nac yn cael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.

A3.13 Ni chawsom unrhyw sylwadau am ein hasesiad. Fel y nodwyd yn y Datganiad hwn, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â’n hegwyddorion a’n dulliau fel y cawsant eu cynnig, ac felly’n cadarnhau nad ydym yn disgwyl iddynt drin y Gymraeg yn wahanol i’r Saesneg na chael unrhyw effaith ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg.

A3.14 Byddwn hefyd yn cynnal asesiad o’r effaith ar y Gymraeg wrth lunio ein hadroddiad i’r Ysgrifennydd Gwladol.